# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Fforwm Rheoli Tir Cymru |
| **Lleoliad** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 5 Mehefin 2023 |
| **Aelodau'n bresennol:** | Yr Athro Rhys Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Dominic Driver, CNC<br>Huwel Manley, CNC<br>Bradley Welch, CNC<br>Anthony Geddes, Confor<br>Lee Pritchard, CFfI Cymru<br>Gareth Parry, FUW<br>Sarah Hetherington, CNC<br>John Browne, CNC<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Tim Kirk, Confor |
| **Mynychwyr yn bresennol:** | Tristan Hatton-Ellis, CNC (Eitem 3)<br>Richard Park, CNC (Eitem 4)<br>Nicola Rimington, CNC (Eitem 4)<br>Louise Pennington, CNC (Eitem 4) |
| **Ymddiheuriadau:** | Ruth Jenkins, CNC<br>Martyn Evans, CNC<br>Dav Letellier, CNC<br>Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb

1. Croesawodd yr Athro Rhys Jones (Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod a nododd ymddiheuriadau.

2. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda i'w hystyried.

3. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at bwrpas cadw'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u llunio.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf, camau gweithredu a materion yn codi

4. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol, byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y Grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2023. Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir.

5. Adolygodd y grŵp y camau gweithredu a oedd yn weddill a darparwyd diweddariadau llafar.

6. Soniodd Rhys am y trafodaethau blaenorol ynghylch yr Adolygiad Strategol o Daliadau a'r gwrthdaro posibl sy'n ymwneud â Draenio Cynaliadwy a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Gofynnodd Rhys a oedd unrhyw ddiweddariadau pellach ar y pynciau hyn.

***PG Mehefin 01: Bronwen Martin i weld a oes unrhyw ddiweddariadau ynghylch ymholiad UAC am wrthdaro posibl yn ymwneud â Draenio Cynaliadwy a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.***

7. Gofynnodd Rhys a ellid codi Natur a Ni gan Russell De'Ath mewn cyfarfod yn y dyfodol i gau pen y mwdwl ar y pwnc hwnnw.

***PG Mehefin 02: Bronwen Martin i gael gafael ar ddiweddariad ynghylch Natur a Ni ar gyfer cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

8. O ran y diweddariad blaenorol ar Afancod, gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru a yw CNC bellach wedi cyflwyno'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru a'i bod gyda nhw i'w hystyried. Gofynnodd Rachel hefyd ai tystiolaeth amgylcheddol yn unig yw honno neu a yw'n ystyried goblygiadau cymdeithasol a diwylliannol ehangach hefyd. Fel sefydliad sy'n cynrychioli ffermwyr a rheolwyr tir, rydym yn awyddus iawn i gyfrannu at y broses hon ac nid ydym wedi cael y cyfle hwnnw hyd yn hyn. Rydym am sicrhau ein bod yn cael y cyfle hwnnw cyn i benderfyniadau allweddol gael eu gwneud. Dywedodd Bronwen y byddai'n rhaid iddi gyfeirio'r cwestiynau hynny at gydweithwyr CNC i gael eglurhad ar hynny.

***PG Mehefin 03: Bronwen Martin i ofyn am eglurhad am ymholiadau ynghylch y gwaith adolygu afancod y mae CNC wedi'i wneud ar ran Llywodraeth Cymru.***

## Eitem 3 Adfer Afonydd a Chregyn Gleision Perlog

9. Ymunodd Tristan Hatton-Ellis, CNC â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar y gwaith adfer afonydd a wnaed i hybu poblogaeth y cregyn gleision perlog yng Nghymru.

10. Disgrifiodd Tristan gyfradd dirywiad bioamrywiaeth dros y 150 mlynedd diwethaf a dangosodd hyn gyda graff. Mae bwriad i ddechrau gweld rhywfaint o adferiad erbyn 2030 gyda'r nod o weld gwelliannau sylweddol erbyn 2050. Mae cregyn gleision perlog dŵr croyw ac eogiaid yn enghreifftiau da o rywogaethau dŵr croyw sy'n dioddef ar hyn o bryd ac yn wynebu dirywiad mawr.

11. Trafododd Tristan newid hinsawdd ac effaith tywydd eithafol. Gall y ffordd yr ydym yn rheoli ein hafonydd eu helpu i ddod yn fwy gwydn. Disgrifiodd Tristan flaenddyfroedd gwydn, yn draddodiadol mae'r ardaloedd hyn wedi'u draenio oherwydd ein bod am

wneud y defnydd mwyaf posibl o'r tir ond mewn gwirionedd mae achos dros ystyried efallai a ddylem fod yn ceisio eu cadw yn wlypach dros gyfnod hwy. Yn ystod yr haf, gallai'r rhain fod yn ardaloedd dyfrio eithaf pwysig ar gyfer stoc, ac maent hefyd yn wych ar gyfer bioamrywiaeth.

12. Mae parth glannau'r afon yn rhan bwysig, sef yr ardal nesaf at yr afon. Y rheswm pam fod hyn yn bwysig yw nad yw afonydd ond yn ymwneud â'r dŵr sy'n llifo i lawr canol y sianel, mae angen iddynt hefyd gael eu cysylltu â'r cynefin daearol cyfagos. Mae llawer o'r pethau sy'n byw mewn afonydd mewn gwirionedd yn byw ar bethau sydd wedi disgyn i mewn iddynt (ee, pryfed dyfrol, dail a darnau o bren marw ac ati). Mae'r cysgod o goed a llystyfiant arall hefyd yn bwysig iawn oherwydd ei fod yn helpu i oeri tymheredd y dŵr, er enghraifft byddai brithyll sy'n byw yn y math hwn o gynefin yn eithaf tebygol o farw o wres pe na bai cysgod. Mae eithrio rhai da byw o'r ymylon yn bwysig i'r afonydd hynny weithio'n dda, hyd yn oed os yw ansawdd y dŵr yn hollol iawn. Mae ardaloedd pori trwm hefyd yn achosi problemau pan fydd hi'n bwrw glaw am fod dŵr ffo yn mynd i'r dŵr. Mae parth glannau'r afon hefyd yn gweithredu fel byffer i atal llygryddion rhag mynd i mewn i'r dŵr. Trafododd Tristan bwysigrwydd strwythur cynefinoedd fel cael lleoedd i rywogaethau guddio, cysgod a gorchudd i bysgod, coed yn gollwng dail sy'n ffynhonnell fwyd i rai rhywogaethau, neithdar a gorchudd i bryfed, ac ardaloedd agored i chwilod a phryfed cop. Mae strwythur cynefin amrywiol ac ansawdd dŵr da yn cyfrannu at ecosystem afon iachach. Mae mwy o amrywiaeth mewn llif yn creu gwahanol fathau o gynefinoedd tanddwr hefyd.

13. Disgrifiodd Tristan effaith llifogydd ar ecosystemau afonydd a rôl gorlifdiroedd. Mae gorlifdiroedd yn darparu tir cynhyrchiol iawn ond mae ganddynt fuddion i'r afon hefyd. Dyma'r cysylltiad rhwng yr afon a'i hamgylchedd daearol.

14. Mae cregyn gleision perlog dŵr croyw'n byw'n hir iawn, gall yr oedolion gyrraedd tua 10 neu 15 centimetr o hyd a gallant fyw am dros 100 mlynedd. Mae angen afonydd o ansawdd uchel, cymharol ddigyfnewid, sy'n llifo'n gyflym arnynt. Mae angen llif a swbstrad amrywiol arnynt oherwydd bod angen llif cyflym ar yr oedolion, ac mae'r rhai ifanc yn llawer llai ac ni allant fyw yn union yr un cynefin. Maent mewn perygl difrifol ac roedd miliynau ohonynt yn arfer bod yng Nghymru ond mae'n debyg mai dim ond tua 1000 o oedolion sydd bellach yn y gwyllt yng Nghymru. Disgrifiodd Tristan gylch bywyd y gragen las berlog. Mae'r oedolion yn byw am amser hir iawn, ac maent yn byw hanner wedi'u claddu neu wedi'u claddu'n llawn mewn graean. Bob haf maent yn rhyddhau larfâu glochidia, sy'n byw yn y golofn ddŵr am ychydig oriau. Bydd rhai o'r glochidia hynny yn llwyddo i heintio tagellau brithyll neu eog ifanc, yn bennaf yng Nghymru maent yn defnyddio brithyll. Maent yn byw yno am oddeutu chwe mis ac yna byddant yn gollwng ac yn byw mewn tywod neu raean glân am oddeutu pum mlynedd nes eu bod yn ddigon mawr i hidlo bwyd gydag oedolion eraill.

15. Y broblem yw nad yw'n ymddangos bod y rhai ifanc yn goroesi. Gwelir hyn yn eu holl gynefinoedd ac nid rhywbeth sydd wedi'i gyfyngu i Gymru neu hyd yn oed i Brydain. Ymddengys mai'r brif broblem yw bod mwy o siltio'n digwydd mewn afonydd y dyddiau hyn, sy'n achosi tagfa yn y graean ac nad oes digon o ocsigen yno i'w galluogi i oroesi.

16. Mae CNC wedi cynllunio strategaeth sy'n edrych ar gregyn gleision perlog a'r ffordd orau i ni eu gwarchod. Mae hefyd yn ymwneud â rheoli afonydd yn fwy cynaliadwy yn gyffredinol. Yr un yw'r problemau a wynebir gan gregyn gleision perlog â'r problemau a wynebir gan lawer o fioamrywiaeth dŵr croyw arall. Mae hyn yn cynnwys ystyried rhai o'r problemau gan gynnwys colli cynefinoedd, tagu a diocsigenu graean a silt, newid

hinsawdd, pysgota am berlau, llygredd dŵr, peirianwyr ecosystem a rhywogaethau ymbarél.

17. Mae gan CNC raglen magu mewn caethiwed a rhyddhau mewn dwy ddeorfa sydd wedi dod yn fwyfwy llwyddiannus. Rydym yn gobeithio rhyddhau'r cregyn gleision cyntaf o'r rhaglen fridio eleni.

18. Elfen arall y gwaith hwn yw adfer cynefinoedd. Mae hyn yn cael ei gyflawni gan Gydlynydd Cregyn Gleision Perlog a nifer o brosiectau adfer afonydd ar raddfa fawr.

19. Disgrifiodd Tristan beth o'r gwaith a wnaed yn y 1960au a'r 1970au gan gynnwys tyrchwr Bwrdd Afonydd Gwynedd yn tynnu clogfeini o'r afon. Mae CNC bellach wedi dymchwel llawer o'r argloddiau clogfeini hyn a'u dychwelyd i'r afon. Roeddem yn ofalus iawn i gael gwared ar unrhyw gregyn gleision ymlaen llaw. Fe wnaethon ni roi dros 800 tunnell o glogfeini i mewn ac ychwanegu deunydd pren i ddal y graean. Fe allwch chi weld nawr ar ôl i ni roi'r holl glogfeini hynny yn ôl i mewn faint yn fwy cymhleth yw'r afon a faint mwy o amrywioldeb a llif sydd yna ac mae hynny'n creu cynefin gwych i eogiaid a brithyllod. Dangosodd Tristan luniau drôn i ddangos y gwahaniaeth yn yr afon rhwng mis Mai 2022, cyn y gwaith lle'r oedd yn eithaf unffurf, o'i gymharu â'r afon ar ôl y gwaith.

20. Gofynnodd Gareth a oes gwerthusiad wedi'i wneud i weld sut y gallai'r math hwn o waith gynyddu'r risg o lifogydd yn y dyfodol, er enghraifft o raean yn cronni ymhellach i lawr yr afon. Dywedodd fod yr holl waith hwn wedi mynd trwy wahanol brosesau ac asesiadau. Ar y safle hwn, rydym yn ceisio cynyddu maint y llifogydd a fydd felly yn lleihau rywfaint ar y perygl o lifogydd i lawr yr afon oherwydd ein bod wedi ailgysylltu'r afon i'w gorlifdir – mae hyn yn cynyddu'r gallu i storio llifogydd a hynny pan fyddant yn eu hanterth.

21. Dywedodd Rachel nad oedd unrhyw sôn am bwy mewn gwirionedd oedd yn berchen ar y tir yn y cyflwyniad. Byddai'n dda deall safbwynt y tirfeddiannwr a sut y cafodd CNC eu caniatâd. A wnaeth CNC hefyd ystyried y dimensiwn cymdeithasol a diwylliannol hyn oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion mae ffermwr ar y tir cyfagos a fydd efallai'n gorfod delio â'r canlyniadau os caiff yr afon ei hailgysylltu â'r gorlifdir (ee llifogydd amlach ar eu tir). Dywedodd Tristan fod y tir yn eiddo i ffermwr a oedd hefyd â maes gwersylla – gwerthodd y tir i CNC (gwerthwyd y maes gwersylla ar wahân). Prynodd CNC y tir penodol hwnnw oherwydd ei fod o werth strategol allweddol i gregyn gleision perlog. Trafododd Tristan rai o fanteision niferus y gwaith hwn. Gofynnodd Rhys a oes cynlluniau eraill gan CNC ar dir sy'n eiddo i ffermwyr neu dirfeddianwyr eraill. Dywedodd Tristan bod, ond mae'r cyd-destun ar gyfer pob un ohonynt yn wahanol. Dywedodd Tristan fod yr achos penodol hwn yn anarferol, nid yw CNC fel arfer yn prynu tir, ond roedd hwn yn safle hanfodol iawn i gregyn gleision perlog. Disgrifiodd Tristan y broses gyffredinol o gyfathrebu â ffermwyr a thirfeddianwyr gan gynnwys negodi a sefydlu cytundebau ar gyfer prosiectau.

22. O ran llifogydd, dywedodd Huwel Manley am unrhyw waith y mae CNC yn ei wneud mewn afonydd, mae'n rhaid i ni hefyd wneud cais am Drwydded Gweithgaredd Perygl Llifogydd. Disgrifiodd Huwel y broses fewnol sy'n mynd i'r timau mapio perygl llifogydd i'w hasesu. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau cynefinoedd ac ati (ee, yn ystyried sgrinio ar gyfer rhywogaethau, gwiriadau ar gyfer unrhyw rywogaethau goresgynnol ac ati). Dywedodd Huwel mai CNC sy'n gyfrifol am brif

afonydd, ond mai Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gyrsiau dŵr cyffredin. Eglurodd Tristan fod y safle penodol hwn yn cynnwys cwrs dŵr cyffredin  yng Ngwynedd.

23. Dywedodd Dennis ei fod wedi cael diwrnod diddorol iawn gyda'r Fforwm Rheoli Dŵr ar Ardal Dalgylch Uwch Conwy i weld ailwlychu Ystad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y rhostir. Mae hyn wedi cael effaith ddramatig ar lanhau'r dŵr i lawr yr afon. Dechreuodd hyn yn 2012 a'r syniad cychwynnol oedd pe baech chi'n ailwlychu'r rhostir yna byddai'r allyriadau methan yn cynyddu'n fwy na'r carbon a fyddai'n cael ei ddal. Ond ai'r gwrthwyneb ydyw mewn gwirionedd? Mae'r afon i lawr yr afon yn lanach nag y bu mewn oes, ac mae hefyd wedi atal llifogydd yn y tai yn y pentref i lawr yr afon a'r caeau cyfagos. Yn y lleoliad penodol hwnnw, mae wedi gweithio ond mae cwestiynau o hyd ynghylch a fyddai ailwlychu, fel ffordd o wella ansawdd dŵr afon, yn gweithio ym mhob lleoliad. Cafodd y prosiect hwn gydweithrediad y ffermwyr tenant, tirfeddianwyr ac eraill, ac roedd yn llwyddiant. Trafododd Rhys y cysylltiadau rhwng y gwahanol is-grwpiau a phwysigrwydd cysylltu pynciau â Fforwm Rheoli Tir Cymru.

24. Dywedodd Tristan fod CNC yn gobeithio cyflawni mwy o brosiectau fel hyn yn y dyfodol a byddai'n dda dychwelyd at y grŵp i siarad am rai o'r materion ehangach.

25. Gofynnodd Rhys a yw'r prosiect penodol hwn bellach yn hunangynhaliol. Dywedodd Tristan y bydd CNC yn sicr yn gwneud rhywfaint o waith monitro ar ôl y prosiect a hyd yn hyn, rydym wedi gweld rhai gwelliannau mesuradwy. Pan fydd CNC yn hapus gyda'r cynefin, byddwn yn ailgyflwyno cregyn gleision ifanc yno. O safbwynt y cynefin, rydym yn gobeithio na fydd angen i ni wneud llawer iawn o waith ychwanegol oherwydd y nod yw creu cynefin hunangynhaliol.

26. Gofynnodd John Browne a fyddai hyn yn rhywbeth y gellid ei gyflwyno ledled Cymru. Efallai y bydd ffermwyr sydd â diddordeb yn awyddus i roi rhai clogfeini yn ôl i'r afonydd sy'n croesi eu tir. Efallai, dywedodd Tristan, ond mae angen ei wneud gyda gofal a chyda chyngor gan rywun sy'n deall y sefyllfa, fel geomorffolegydd.

27. Dywedodd Dominic Driver ei fod yn falch o nifer o brosiectau CNC ond ei fod yn arbennig o falch o'r prosiect hwn oherwydd bod cregyn gleision perlog yn greaduriaid anhygoel. Mae'r cregyn gleision perlog wrth wraidd y prosiect, ond mae hyn hefyd wedi golygu troi afon ddiflas, dawel oedd wedi'i chamlesu yn afon hapus, swnllyd, hyfryd sydd â llawer o fanteision. Rydym hefyd yn edrych ar sut rydym yn rheoli'r tir o'i gwmpas ac wedi cyflwyno pethau fel pori merlod.  Rydym hefyd yn siarad â'r ffermwyr cyfagos a'r cwmni dŵr sy'n gweithredu yn yr ardal oherwydd bod rhai heriau ynghylch ansawdd dŵr a sut mae'r dŵr yn cael ei reoli. Y cregyn gleision perlog yw'r canolbwynt ar gyfer math o fenter rheoli dalgylch sydd wedi'i hintegreiddio'n dda.

***PG Mehefin 04: Bronwen Martin i ddosbarthu copi o'r cyflwyniad Cregyn Gleision Perlog.***

## Eitem 4 Addasu Arfordirol

28. Soniwyd yn fyr am addasu'r arfordir yng nghyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mehefin ac estynnwyd gwahoddiad i arbenigwyr CNC roi cyflwyniad i'r grŵp. Ymunodd Nicola Rimington, Louise Pennington a Richard Park, CNC â'r cyfarfod i drafod addasiad arfordirol. Mae Nicola'n gweithio yn nhîm Polisi a Chynllunio Morol ac Arfordirol CNC. Mae Rick a Louise ill dau yn gweithio ym maes Rheoli Perygl Llifogydd Strategol CNC.

29. Dywedodd Nicola fod y pwysau allweddol ar yr arfordir yn ymwneud â chynnydd yn lefel y môr a stormusrwydd. Ymhen tua 100 mlynedd, mae lefel y môr yn debygol o godi rhwng metr a metr a hanner o amgylch arfordir Cymru (mae'n amrywio ychydig yn dibynnu ar ble rydych chi a pha fath o senario rydych chi'n ei ddewis). O ran stormusrwydd, mae'r dystiolaeth yn eithaf aneglur beth fydd yn digwydd o ran mwy o stormusrwydd.

30. Wrth i lefel y môr godi, ni fydd y seilwaith rheoli perygl llifogydd presennol sydd gennym o amgylch yr arfordir yn ein hamddiffyn cystal ag y mae ar hyn o bryd. Dangosodd Nicola graff sy'n dangos lefelau dŵr heddiw o'i gymharu â 0.5m o godiad yn lefel y môr.

31. Yr her arall yw ymdreiddiad dŵr hallt sy'n newid mwy graddol y gallem ei brofi. Roedd prosiect gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Arolwg Daearegol Prydain yn ystyried effeithiau dŵr daear cynyddol ar y newid mewn halltedd ar yr arfordir ar gyfer eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae gwaith hefyd yn digwydd yn yr Unol Daleithiau sy'n ymwneud â hyn. Mae hwn yn fygythiad cynyddol i amaethyddiaeth arfordirol, ond ni wyddom i ba raddau.

32. Dangosodd Nicola rai ffotograffau yn dangos effeithiau stormydd y gaeaf o 2012/2014 (Adroddiad Cam 1 Adolygu Llifogydd Arfordirol Cymru - Asesiad o'r Effeithiau). Roedd llawer o effeithiau ar seilwaith yn ogystal ag effeithiau ar yr amgylchedd naturiol. Yna dangosodd Nicola rai mapiau a gymerwyd o adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru: Colli tir amaethyddol o dan senarios cynnydd yn lefel y môr). Yn yr adroddiad hwn, mae'r senario mwyaf eithafol yn awgrymu y gallai tua 33,000 hectar o dir amaethyddol fod mewn perygl dros y cyfnod 100 mlynedd.

33. Darparodd Nicola drosolwg byr o Gynlluniau Rheoli Traethlin. Datblygwyd yr ail rownd o Gynlluniau Rheoli Traethlin tua 10 mlynedd yn ôl a'u nod yw dod â dealltwriaeth at ei gilydd o brosesau arfordirol, effeithiau newid hinsawdd, sut rydym ar hyn o bryd yn rheoli'r arfordir a sut y gallwn reoli'r arfordir orau gan edrych ymlaen at 100 mlynedd i'r dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan CNC - CNC: Cynlluniau Rheoli Traethlin.

34. Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (Llywodraeth Cymru: Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru ). Mae hyn yn llywio'r gwaith y mae awdurdodau rheoli risg yn ei wneud o ran llifogydd ac erydu arfordirol a rheoli risg. Byddai awdurdodau rheoli risg yn cynnwys awdurdodau lleol, CNC a chwmnïau dŵr hefyd. Nod cyffredinol y strategaeth honno yw lleihau'r risg i bobl a chymunedau rhag llifogydd ac erydu.

35. Dywedodd Richard fod her i bob un ohonom reoli perygl llifogydd yn gynaliadwy wrth optimeiddio'r canlyniadau ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (RhANG) a hefyd yr angen i amddiffyn cymunedau sydd mewn perygl. Mae polisïau allweddol sy'n tanlinellu'r cyfeiriad penodol hwn, gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (sy'n ymwneud â RhANG) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

36. Trafododd Richard y tri ymateb polisi sy'n berthnasol i arfordir Cymru sydd i gyd yn enghreifftiau o addasu arfordirol:

- Mae cynnal y llinell yn gofyn am addasu naill ai drwy newid amddiffynfeydd arfordirol, neu dderbyn gostyngiad o ran y safon amddiffyn

- Adlinio a reolir a Dim ymyrraeth weithredol: maent hefyd yn fathau o addasu oherwydd bydd tueddiad rhai ardaloedd o dir i lifogydd arfordirol yn newid. Bydd hyn yn effeithio ar ddefnydd tir a pherygl llifogydd.

37. Daw pwynt lle mae'r penderfyniadau buddsoddi a wneir mewn perthynas â rheoli'r asedau hynny yn wynebu'r her o beidio â bod yn gynaliadwy mwyach a dyna le mae'n newid yn sydyn i'r angen am fuddsoddiad mawr.

38. Rydym yn ceisio nodi strategaeth reoli addasol lle rydym yn ceisio canfod beth yw'r oes weddilliol a safon yr amddiffyn a sut y byddai hynny'n lleihau dros amser, a chynnig opsiynau a allai fod yn ddewis amgen yn lle 'cadw'r llinell yn unol â pholisi cynllun rheoli traethlin lle mae'r polisïau hynny'n mynd trwy drawsnewidiad am fod llawer o ardaloedd yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn 'cadw'r llinell' yn newid i 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'adlinio a reolir'.

39. Mae'r rhaglen addasu yn rhaglen o safleoedd â blaenoriaeth sy'n ymwneud ag effeithiau o amgylch yr arfordir dros amser. Mae Porthmadog, Pwllheli (a'r ardal gyfagos) ac Aber Afon Dyfi yn enghreifftiau o lond llaw o'r safleoedd yr ydym yn edrych arnynt ar hyn o bryd. Mae'r safleoedd hynny'n mynd i gynnal adolygiad eithaf trylwyr ac mae'r adolygiad hwnnw'n cyd-fynd â'r gofynion sydd gennym ar gyfer cynaliadwyedd.

40. Mae Rhaglen Addasu Arfordirol CNC yn mynd i'r afael â'r angen i ddatblygu gwytnwch a ffyrdd cynaliadwy o reoli perygl llifogydd yn y dyfodol, yng nghyd-destun y Cynlluniau Rheoli Traethlin. Mae'r rhaglen yn gwerthuso tystiolaeth ac opsiynau ac yn datblygu cynlluniau ar gyfer rheoli perygl llifogydd a chynefinoedd, yn unol â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Trafododd Richard y meini prawf a'r blaenoriaethau amrywiol sy'n sbarduno diddordeb mewn safle penodol ar gyfer prosiect addasu arfordirol posibl ac yna disgrifiodd broses y prosiect.

41. Dywedodd Richard fod hon yn her eithriadol o gymhleth ac enfawr i ni i gyd. Efallai y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfle allweddol i gefnogi trawsnewidiadau rheoli tir yn yr ardaloedd sydd mewn perygl. Mae ein rhaglen a'n prosiectau'n cynnig fframwaith cydweithredol y gallwn ei ddefnyddio i weithio gyda rhanddeiliaid i werthuso opsiynau gyda'n gilydd a hyrwyddo atebion sy'n cydbwyso perygl llifogydd, yr amgylchedd, lles a gwerth.

42. Soniodd Dennis ei bod yn frawychus gwybod y bydd cynnydd yn lefel y môr yn effeithio ar 33,000 hectar o dir yn y pen draw. Dywedodd Dennis nad yw ond yn atgyfnerthu ei ddadl gynharach na ddylem ychwaith fod yn aberthu miloedd o hectarau o dir a all gynhyrchu bwyd i dyfu coed.

43. Dywedodd Rachel fod NFU Cymru wedi ymateb yn ddiweddar i ymgynghoriad rheoli perygl llifogydd CNC. Mae'n bryder parhaus i NFU Cymru bod pobl ac eiddo yn cael eu blaenoriaethu, mae hyn yn tanbrisio tir amaethyddol a'r gymuned amaethyddol. Mae'n bryder mawr oherwydd yn aml gofynnir i ffermwyr gyflawni mwy o ran rheoli llifogydd naturiol, ond mewn gwirionedd nid oes llawer o werth yn y camau hyn. Cydnabu Nicola sylwadau Rachel a'r heriau a grybwyllwyd. Un o'r cyfleoedd posibl yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i geisio gweld lle y gallwn gael y gorau o reoli newid ar yr arfordir. Gofynnodd Rhys am botensial y Cynllun i helpu i ymateb ac addasu i'r her hon. Dywedodd Nicola fod CNC wedi cyflwyno syniadau amrywiol yn ystyried sut y gallai gefnogi newid o arferion presennol i bethau fel morfa heli yn datblygu ar rywfaint o'r tir

hwn oherwydd bod morfa heli yn enfawr o ran potensial carbon glas. Dywedodd Richard ei bod yn bwysig adeiladu ar y dystiolaeth.

44. O ran yr her o blannu a ffermio coed, awgrymodd Anthony fod rheoli tir integredig yn allweddol ac mae'n debyg y bydd angen rhywfaint o feddwl diwygiedig. Trafododd Anthony’r cyfle i arafu'r llif trwy goedwigo ymhellach i fyny'r dalgylch i geisio lleihau effaith llifogydd brig. Gofynnodd Anthony a oedd cynigion i ystyried ariannu pontio. Dywedodd Nicola o ran ymgynghoriad diweddar cynllun rheoli perygl llifogydd CNC, nad oedd yn canolbwyntio ar y môr yn unig, a oedd yn ystyried ar y cyd peryglon lllifogydd o bob ffynhonnell, felly mae meddwl cydgysylltiedig yn yr ystyr hwnnw. Mae mesurau rheoli yn digwydd yn y dalgylch a gallant helpu i leddfu'r pwysau ymhellach i lawr ar yr arfordir, ond mae'n ddarlun eithaf cymhleth o ran y risg gyfunol o lanw uchel, lefel y môr, storm a llif uchel yr afon i gyd yn digwydd ar yr un pryd a pha risg a olygir gan hynny. Mae'r modelu sy'n ymwneud â hynny'n gymhleth iawn i gael y wybodaeth debygolrwydd gyfunol honno.  Rydym yn ceisio cael gwell dealltwriaeth ac yn gweithio gyda phobl fel Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd. Y neges allweddol yw bod unrhyw beth sy'n helpu i reoli'r perygl o lifogydd yn help, boed hynny i fyny'r dalgylch neu i lawr ar yr arfordir.

45. O ran pwynt Anthony ar ariannu, dywedodd Nicola nad oedd ganddi unrhyw beth arall i'w ychwanegu a gofynnodd a oedd Anthony eisiau iddi siarad â chydweithwyr am yr ymholiad hwn. Dywedodd Anthony yn y camau cychwynnol y bydd llawer o bobl yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ariannu gwaith cychwyn ar gyfer gwytnwch a dechrau'r addasiad yn hytrach na dim ond ‘cadw’r llinell '. Gwyddom fod cyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn eithaf bach, ac rydym yn gwybod bod gwariant y llywodraeth yn lleihau, felly o ble mae'r arian yn mynd i ddod.

46. O ran yr Cynllun Ffermio Cynaliadwy, dywedodd Rachel ei bod wedi clywed bod yr Cynllun yn mynd i helpu gyda'r broblem amgylcheddol benodol honno ym mhob cyfarfod sy'n ymwneud â'r Cynllun y mae hi wedi'i fynychu. Mae yna lawer iawn o naïfrwydd ynghylch y gyllideb a pha mor bell y mae hynny'n mynd i ymestyn. Mae pobl hefyd yn anwybyddu'r ffaith bod angen cynllun ymarferol, dichonadwy a gweithredol arnynt erbyn 2025 sy'n gorfod cyflawni sawl amcan ac ategu busnesau fferm sydd yn eu tro wrth wraidd yr economi wledig a'n cymunedau, ein diwylliant a'n hiaith. Dywedir wrthym fod sawl amcan y mae'r cynllun penodol hwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw a bod hynny ar gyfer mynediad, ffosffadau neu erydiad arfordirol, bydd popeth yn cael ei wneud drwy'r Cynllun. Fodd bynnag, mae materion ymarferol ac ariannol enfawr gyda'r syniad hwnnw.

47. Dywedodd Gareth fod y ffigwr tir amaethyddol y cyfeiriodd Dennis ato yn gynharach yn bryder ynghyd â'r rhagfynegiadau dros y 100 mlynedd nesaf. Pwysleisiodd Gareth bwysigrwydd rhoi cynhyrchiant amaethyddol a ffermwyr ar yr un lefel â diogelu ardaloedd trefol wrth feddwl am strategaethau. Nid ydym am weld colli'r tir amaethyddol hwnnw o amgylch ein hardaloedd arfordirol a hefyd o bosibl mwy o lifogydd yn yr ucheldiroedd oherwydd afancod a rhywogaeth arall yn y dyfodol. Pan fydd CNC yn creu'r strategaethau hyn, mae'n allweddol nad yw tir amaethyddol yn cael ei roi o'r neilltu er mwyn amddiffyn rhai ardaloedd, mae angen rhoi'r un ystyriaeth iddo. Dywedodd Richard er eglurhad o ran strategaethau, nad cyfarwyddebau CNC o ran blaenoriaethau yw'r rhain. Rydym yn hynod sensitif i effaith a goblygiadau defnyddio ein cyfarwyddeb a'n mandad i ganfod ein penderfyniadau rheoli. Rydym eisiau cael y gorau ohono i bawb.

48. Dywedodd Huwel ei bod yn allweddol bod sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Rheoli Tir Cymru yn rhannu negeseuon gyda'u haelodau a'u rhwydweithiau, yn enwedig bod y risg o ddyfroedd arfordirol yn cynyddu. Soniodd Huwel mai cael a chael oedd hi o gwmpas arfordir de Cymru ym mis Chwefror 2022, a phe na bai'r gwynt wedi lleddfu, y gallem fod wedi bod mewn sefyllfa ddifrifol. Mae'n bwysig cael pobl i baratoi eu hunain ar gyfer yr amgylchiadau hynny.

***PG Mehefin 05: Bronwen Martin i ddosbarthu copi o'r cyflwyniad Addasu Arfordirol.***

## Eitem 5 Diweddariadau CNC

49. Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd Papur Diweddaru Fforwm Rheoli Tir Cymru. Anogir aelodau i adolygu'r ddogfen ymlaen llaw ac i ddod i'r cyfarfod gyda chwestiynau. Croesawodd Dominic gwestiynau gan yr aelodau.

50. Dywedodd Rachel fod y papur diweddaru yn ddefnyddiol iawn ond holodd sut y gall CNC sicrhau ei fod yn gwbl gynhwysfawr. Yn dilyn cyfarfod diwethaf Fforwm Rheoli Tir Cymru, daeth mater i'r amlwg yn ymwneud â thrwyddedu a'r ffaith bod CNC yn gohirio penderfyniadau trwyddedu o ganlyniad i'r mater ffosffadau a niwtraliaeth maetholion. Daeth hynny i sylw Rachel gan un o aelodau NFU Cymru. Dywedodd Rachel mai rhan allweddol o'r cyfarfodydd hyn yw nad oes unrhyw beth annisgwyl yn codi. Diolchodd Bronwen i Rachel am yr adborth. Soniodd Bronwen, os oes pynciau eraill y mae aelodau eisiau rhagor o wybodaeth amdanynt yna y gallai gysylltu â chydweithwyr am ragor o fanylion. Atgoffodd Bronwen y grŵp fod awgrymiadau ar gyfer eitemau ar yr agenda hefyd yn ddefnyddiol.

51. Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â'r diweddariadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan CNC cyn y cyfarfod.

## Eitem 6 Diweddariadau gan FUW / NFU Cymru /CFfI Cymru/ Confor / Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad / Cymdeithas y Ffermwyr Tenant / Llywodraeth Cymru

52. **FUW:** Diolchodd Gareth Parry i'r grŵp am y croeso cynnes ers ymuno. Mae Gareth yn dweud ei fod yn dal i weithio drwy nodiadau trosglwyddo Bernard. Soniodd Gareth ei fod wedi derbyn cwestiwn yn ddiweddar gan aelod o FUW ynghylch newidiadau i eithriadau gwastraff a chafwyd adolygiad diweddar a bydd newidiadau i eithriadau gwastraff yng Nghymru. Os felly, byddai'n ddefnyddiol cael diweddariad neu ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

***PG Mehefin 06: Bronwen Martin i ddod o hyd i ddiweddariad ynghylch newidiadau i eithriadau gwastraff ar gyfer y cyfarfod nesaf.***

53. **NFU Cymru:** Dywedodd Rachel fod gan NFU Cymru friff gwylio ynglŷn â chynnydd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Rydym yn cadw llygad craff ar hynny i weld sut mae hynny'n dylanwadu ar ddatblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a ddisgwylir yr hydref hwn. Mae NFU Cymru yn ymwneud â nifer o weithgorau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gan gynnwys tenantiaeth, tir comin, y genhedlaeth nesaf a grŵp dangosyddion perfformiad allweddol. Mae llawer o faterion i'w datrys yn y meysydd allweddol hynny os ydym am gael cynllun sy'n ymarferol i bob ffermwr yng Nghymru.

Mae NFU Cymru yn ymwneud â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Masnachu Maethynnau sy'n edrych ar fasnachu maethynnau a thrwyddedu dalgylchoedd. Mae NFU Cymru hefyd yn ymwneud â'r gwaith o lunio adroddiad yn ymwneud ag amaethyddiaeth.

Soniodd Rachel am y Grŵp Her Sero Net 2035 sydd â thema ar fwyd. Bydd NFU Cymru yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig fel rhan o'u cyfraniad nhw erbyn diwedd y mis.

Mae NFU Cymru hefyd yn cynnal eu Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy ar 28 Medi 2023 gan arddangos cyfraniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ffermio. Dywedodd Rachel y bydd Bodwi ym Mhwllheli yn fferm ragorol ar gyfer cynnal y digwyddiad a bydd dyddiadau'n cael eu hanfon yn fuan, ond mae croeso i bawb ddod.

54. **CFfI Cymru:** Bu'n rhaid i Lee Pritchard, CFfI Cymru adael y cyfarfod cyn yr eitem hon. Fodd bynnag, roedd Lee wedi anfon e-bost byr at Bronwen i'w ddarllen yn uchel –

    Diolchodd Lee i bawb unwaith eto am gynnwys CFfI Cymru fel rhan o'r grŵp rhanddeiliaid hwn. Ar hyn o bryd mae CFfI Cymru yn gweithio ar lansio Partneriaeth Pencampwyr Dŵr Cymru CFfI gyda Dŵr Cymru Welsh Water. Bydd hynny'n caniatáu i ddau o aelodau CFfI Cymru fynd trwy broses gyfweld i gael y cyfle i ymweld â gwahanol weithfeydd trin dŵr Dŵr Cymru a gweld sut mae'r dŵr yn cael ei drin, ei lanhau a'i brosesu i'w yfed.

55. **Confor:** Dywedodd Anthony fod Confor hefyd wedi bod yn gwylio cynnydd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) gyda diddordeb. Gosodwyd rhai gwelliannau yng Nghyfnod 3 a oedd yn fuddiol o ran dileu'r cyfle am gwynion blinderus a allai atal trwyddedu. Yn gysylltiedig â hynny, mae Confor yn gweithio gyda CNC ar ddrafftio amodau lefel 1 a lefel 2. Mae'r broses hon wedi bod ychydig yn rhwystredig oherwydd bod y gwaith yn teimlo'n eithaf datgysylltiedig o'r sector. Nid yw cyfradd a llif y cynnydd a'r wybodaeth yn cyfateb i'r gyfradd y mae Bil Amaethyddol (Cymru) wedi bod yn datblygu arni, ac yn sicr mae'r cynigion gan CNC a'r Gweinidog ar gyfer y rhaglenni newydd hyn yn cael eu rhoi ar waith o 1 Ionawr 2024 yn anghyraeddadwy. Y gwir amdani yw na fydd y canllawiau a'r amodau newydd yn cael eu harchwilio a'u cyhoeddi tan fis Hydref. Esboniodd Anthony nad oes digon o amser pan fydd y tymor plannu wedi dechrau i ymgysylltu â'r sector ac ymgysylltu â'r holl gyrff eraill sy'n eu cynghori a'u helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd y broses ymgeisio a'r rhaglen newydd yn edrych a sut y bydd yr amodau hynny'n effeithio arnynt. Dywedodd Anthony y bydd 2 fis rhwng y cyhoeddi a'r cyflwyno ac mae hynny'n gwbl annerbyniol. Bydd Confor yn cysylltu â'r Gweinidog i ofyn iddi ymestyn y cyfnod gweithredu y tu hwnt i ddiwedd tymor plannu 2023 -2024 gan ein bod yn credu y byddai'n fwy priodol, synhwyrol ac yn sicrhau go iawn nad yw'r farchnad gynaeafu yn cael ei dylanwadu'n ormodol hefyd.

    Bu ailedrych sylweddol ar y grantiau plannu i Gymru, maent bellach yn adlewyrchu'r gost o blannu coed ar fferm ac yn cefnogi pethau fel ffensio a ffensio ceirw. I'r ffermwyr hynny sy'n ei ystyried, mae hwn yn gyfle da hyd yn oed os ydyn nhw ond yn edrych ar dalu costau ffensio.

    Mae Confor yn y broses o ymateb i ymgynghoriad CThEF ar drin credydau amgylcheddol a charbon. Dywedodd y byddai'n annog eraill i edrych ar hynny os nad ydyn nhw wedi gwneud hynny eisoes a chynigiodd gysylltu â nhw. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu terfyn amser eithaf byr yn anffodus.

56. **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant Cymru:** Soniodd Dennis Matheson fod Cymdeithas y Ffermwyr Tenant Cymru wedi bod yn ceisio cael gwelliannau i'r Bil Amaethyddol (Cymru) i alluogi tenantiaid i gymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant ond mae'n dalcen caled.

    Mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenant Cymru yn dal i gyfathrebu â Llywodraeth Cymru ynghylch y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol ac nid ydynt wedi cael unrhyw gynnydd mewn gwirionedd ynghylch y mater o denantiaid yn methu â chydymffurfio â'r rheoliadau hyn. Nid yw'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin ddiweddaraf ar gyfer tenantiaid a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael ag unrhyw un o'r problemau a amlygwyd gan Gymdeithas y Ffermwyr Tenant yn y cam drafft. Mewn gwirionedd, pe baem yn dilyn y canllawiau, mae'n debyg y byddai rhai tenantiaid yn colli eu tenantiaethau yn y pen draw.

    Problem arall i ffermwyr tenant yw gofyniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gadw 10% o’u fferm dan goed ac nid ydym wedi goresgyn yr anawsterau hyn ychwaith. Dywedodd fod amser yn brin ar hyn ac mae'n amau a fydd y broblem hon yn cael ei datrys mewn pryd, ond bydd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn parhau i ymdrechu.

57. Soniodd Dominic y gallai fod o ddiddordeb i aelodau'r fforwm wybod bod Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig wedi cynnal cynhadledd ym mis Ebrill a oedd yn cysylltu coed, ffermwyr a choedwigwyr. Bydd adolygiad llawn o'r gynhadledd yn rhifyn yr haf cylchgrawn ICF Trees. Dywedodd Dominic y byddai'n cymryd camau i geisio rhannu'r adolygiad hwnnw gyda'r grŵp hwn am fod rhai pethau diddorol iawn yno. Bu cyflwyniad gan Geraint Davies (Aelod o Fwrdd CNC) yn y digwyddiad ynghyd ag Abi Reader (Dirprwy Lywydd NFU Cymru), ac roedd y ddau ohonynt yn hynod ddiddorol.

***PG Mehefin 07: Dominic Driver, CNC i rannu crynodeb cynhadledd Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig gyda'r grŵp hwn.***

## Eitem 7 Unrhyw Fater Arall

58. Mae Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar y gorwel a bu'r grŵp yn trafod rhai o'r prif flaenoriaethau a ffocysau ar gyfer y digwyddiad. Cytunodd y grŵp y byddai cyfarfod anffurfiol yn y Sioe yn braf, os yw’n bosibl.

59. Soniodd Rachel fod NFU Cymru yn lobïo Llywodraeth Cymru ar ddyfodol Glastir oherwydd ar hyn o bryd, dim ond tan ddiwedd y flwyddyn hon y mae gan ffermwyr gontractau Glastir ac eto nid yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yn mynd i ddechrau tan 2025. I bob pwrpas, mae'r ffermwyr hynny sydd wedi bod yn ymwneud â chyflawni deilliannau amgylcheddol (rhai am 20-30 mlynedd) yn sefyll ar ymyl y dibyn erbyn hyn o ran cyllid. Nid yw hon yn neges dda i'w hanfon at y diwydiant ac nid yw'n ennyn hyder. Mae NFU Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniad cynnar ac i roi estyniadau cyllid ar waith ar gyfer 2024 i roi'r sicrwydd hwnnw.

60. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 18 Medi – anogir aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru i awgrymu eitemau agenda a phynciau trafod posibl, anfonwch nhw at Bronwen.

61. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

## Diwedd y cyfarfod